

Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Ymgynghoriad ar y cynnig i drawsnewid addysg arbennig yn y
Fro trwy:

- Gynyddu capasiti Ysgol Y Deri i wneud lle i 150 o ddisgyblion ychwanegol; a
- Chodi adeilad ysgol newydd ar y safle a ffefrir yn Cosmeston, Penarth ar gyfer mis Medi 2023 a fyddai'n gweithredu fel safle ychwanegol dan reolaeth Ysgol Y Deri.



Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille ac mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen. Cysylltwch â ni ar 01446 700111 neu 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk i drefnu hyn a/neu i gyflwyno unrhyw ymholiadau.

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Y Cyd-destun Cenedlaethol	3
Y Cyd-destun Polisi Lleol	3
Heriau Cyfredol	4
Proffil y Gymuned	4
Asesiad o'r Effaith	6
Crynodeb Sgorio.....	12
Casgliadau	12

Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ein hysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, eu bod yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a'u bod wedi'u hofferu â'r amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgynghoriadau'n ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau sydd dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn eglur, yn dryloyw, ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Mae hon yn weledigaeth na ellir ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym ni i gyd yn eu gwasanaethu.

Mae'r cynnig yn un i drawsnewid addysg arbennig trwy;

- Gynyddu capasiti YYD i wneud lle i 150 o ddisgyblion ychwanegol; a
- Chodi adeilad ysgol newydd ar y safle a ffefrir yn Cosmeston, Penarth ar gyfer mis Medi 2023, a fyddai'n gweithredu fel safle ychwanegol dan reolaeth YYD.

Ystyrir y cynnig hwn dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli a.y.b.) (Cymru) 2014.

Y Cyd-destun Cenedlaethol

Y canllawiau statudol allweddol i awdurdodau allweddol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yw adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion rhaid i'r Cyngor ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf neu raglenni sy'n olynwyr iddynt.

Y Cyd-destun Polisi Lleol

Gan adlewyrchu'r polisi cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol 2020-25 i wireddu'r weledigaeth ganlynol – **'Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer dyfodol disgleiriach'**.

Mae Bro Morgannwg yn ymrwymedig i gyflawni'r amcan 'cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy' gan godi safonau cyflawniad ar y

cyfan trwy foderneiddio addysg yn y Fro i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg o'r radd flaenaf.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym ni'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cefnogi deilliannau dysgu ac addysgu trwy ddarparu adeiladau modern ac addas i'w diben sy'n diwallu anghenion addysg yr oes fodern. Mae angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl i wneud yn siŵr bod y cyfleoedd gorau ar gael i blant a phobl ifanc a'u bod yn gallu cyflawni eu llawn botensial.

Heriau Cyfredol

Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nifer o heriau a byddai'n cyflawni'r canlynol:

- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fydd yn herio ac yn cefnogi plant i gyrraedd eu llawn botensial.
- Cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnydd o gyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Gwneud darpariaeth yn y Fro ar gyfer niferoedd uwch o'n disgyblion ag ADY cymhleth.
- Cydnabyddir mai YYD yw'r sefydliad sydd â'r profiad a'r sgiliau i roi'r strategaeth ADY ar waith yn y modd mwyaf effeithiol o fewn a ledled yr ALI. Gan hynny, bydd ehangu YYD yn golygu bod rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed yn cael y cymorth mwyaf effeithiol a'r ddarpariaeth anogaeth fwyaf effeithiol fel elfennau allweddol o'u haddysg.
- Bydd mynediad at rwydwaith ehangach YYD o adeiladau'n darparu mwy o gyfle i wneud darpariaeth ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n dioddef materion gorbryder ac iechyd meddwl aciwt.
- Llai o ddibyniaeth ar ddarpariaeth gostus y tu allan i'r sir.

Proffil y Gymuned

Mae 8 ysgol yn yr ardal o amgylch Penarth ar hyn o bryd:

Enw'r ysgol	Math	Iaith	Ystod oedran	Capasiti*	Pellter o safle YYD (milltiroedd)
Cogan	Cymunedol	Saesneg	3 – 11	210	1.0
Evenlode	Cymunedol	Saesneg	3 – 11	420	1.8
Llandough	Cymunedol	Saesneg	3 – 11	210	1.0

St Cyres	Cymunedol	Saesneg	11 – 19	1,050	0.0
St Josephs	Cymunedol	Saesneg	3 – 11	210	0.6
Stanwell	Sylfaen	Saesneg	11 – 19	1,495	1.7
Victoria	Cymunedol	Saesneg	3 – 11	420	1.5
Ysgol Pen-Y-Garth	Cymunedol	Cymraeg	3 – 11	420	0.3

*oedran ysgol statudol – h.y. nid yw'n cynnwys meithrin.

Mae Ysgol Y Deri wedi'i lleoli yn ward Cornerswell ym Mhenarth.

Mae Penarth yn dref lan-môr oludog ac mae pensaernïaeth Fictoriaidd ac Edwardiaidd mewn sawl rhan draddodiadol o'r dref o hyd.

Mae gan ward Cornerswell boblogaeth o 5,366 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019).

Daw'r data isod ar gyfer ward Cornerswell 3, y mae YYD wedi'i lleoli ynddi, o [Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#).

Etholaeth ym Mro Morgannwg	Cod ACEHI	Safle yng Nghymru ar y cyfan (o 1909)		Safle ar gyfer Cyflogaeth (o 1909)		Safle ar gyfer Mynediad at Wasanaethau (o 1909)	
		Safle	% (Lleiaf / Mwyaf Amddifadus)	Safle	% (LIA / MA)	Safle	% (LIA / MA)
Cornerswell 3	W01001077	1202	50% LIA	1211	50% LIA	864	30-50% MA

Fel y dengys y tabl uchod, mae gan ward Cornerswell 3 lefelau isel o amddifadedd at ei gilydd. Ar y cyfan mae o fewn yr 50% o wardiau lleiaf amddifadus yng Nghymru. Fodd bynnag, mae o fewn y 30-50% o wardiau mwyaf amddifadus ar gyfer mynediad at wasanaethau.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Y prif sbardun ar gyfer y cynnig hwn yw ateb galw uwch am ddarpariaeth addysgol arbenigol yn y Fro i ddiwallu anghenion ein dysgwyr mwyaf agored i niwed yn y ffordd orau bosibl.

Mae niferoedd y plant a'r bobl ifanc y mae arnynt angen lle yn YYD wedi parhau i gynyddu a hynny'n gyflymach nag a ragwelwyd yn flaenorol. O ganlyniad, fe ddyrannwyd £11m fel rhan o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif y Cyngor i gynyddu capasiti'r ysgol.

Byddai'r cynnig yn golygu y byddai darpariaeth addysgol arbenigol yn YYD yn cael ei chynyddu i wneud lle i 150 o ddisgyblion ychwanegol. Er mwyn gwneud lle i'r capasiti cynyddol hwn, byddai adeilad ysgol newydd yn cael ei godi ar safle newydd, a fyddai'n gweithredu dan reolaeth YYD. Mae'r Cyngor wedi adnabod safle a ffefrir sydd wedi'i lleoli ar bwys y datblygiad arfaethedig

'Tir yn Fferm Cosmeston Uchaf, Larnog' sydd wedi cael ei ddyrannu fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) mabwysiedig y Cyngor 2011-26. Mae'r ardal hon yn darparu digon o le i godi'r adeilad ysgol newydd arfaethedig ac mae oddeutu 3 milltir o safle presennol YYD. Byddai'r adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion o oedran cynradd yn bennaf. Fodd bynnag, byddai'r ysgol yn gweithredu dull seiliedig ar anghenion i bennu rhaniad disgyblion ar draws y ddau safle. Byddai hyn yn lleihau'r angen i ddyblygu'r holl gyfleusterau sydd ar gael yn YYD ar hyn o bryd.

Asesiad o'r Effaith

Mae'r adran hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Mae'r wybodaeth a ddadansoddir yn y broses hon yn cynrychioli ciplun o'r sefyllfa ar hyn o bryd. Mae'r asesiad o'r effaith yn ddogfen sy'n esblygu a fydd yn dal i gael ei datblygu trwy gydol y broses statudol. Bydd adborth a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael ei ddefnyddio i ddarparu rhagor o wybodaeth ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori.

Mae wyth mesur allweddol wedi cael eu hadnabod:

Cyf.	Mesur
CI1	Mae plant sy'n byw yn y dalgyllch yn mynychu eu hysgol leol
CI2	Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol
CI3	Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol
CI4	Cyfleusterau a ddarperir gan yr ysgol a gweithgarwch a gyflawnir ar safle'r ysgol
CI5	Effaith ar fusnesau lleol
CI6	Effaith ar gyflogaeth leol
CI7	Effaith ar seilwaith lleol
CI8	Trefniadau cludiant

Aseswyd yr wyth mesur i ganfod unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol, a chymhwyswyd sgôr a oedd yn amrywio o -3 i +3 yn seiliedig ar gydbwysedd y dystiolaeth a oedd ar gael.

Sgôr y Mesur	Asesiad o'r Mesur
-3	Dirywiad mawr
-2	Dirywiad cymedrol
-1	Dirywiad bach
0	Dim newid ar y cyfan
1	Gwelliant bach
2	Gwelliant cymedrol
3	Gwelliant mawr

Effeithiau ar y Gymuned Leol

Cyf.	Mesur	Sgôr	Effaith y Cynnig
CI1	Mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol	3	<p>Mae niferoedd y plant a'r bobl ifanc y mae arnynt angen lle yn Ysgol y Deri (YYD) wedi parhau i gynyddu a hynny'n gyflymach nag a ragwelwyd yn flaenorol. Fe adeiladwyd YYD yn wreiddiol ar gyfer 205 o ddisgyblion ond ym mis Ionawr 2020, roedd 276 o ddisgyblion ar y gofrestr. O ganlyniad, fe ddyrannwyd £11m fel rhan o Fand B Rhaglen Ysgolion 21^{ain} Ganrif y Cyngor i ehangu'r ysgol.</p> <p>Felly byddai'r cynnig hwn yn arwain at gydbwysedd mwy effeithlon rhwng y galw am leoedd mewn ysgolion ar gyfer plant ag ADY a'r cyflenwad ohonynt.</p>
CI2	Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol	2	<p>Cynigir y byddai unrhyw wasanaethau cymunedol a ddarperir gan YYD ar hyn o bryd yn parhau ac y gellid ehangu ar y rhain o fewn y cyfleuster newydd.</p> <p>Caiff enghreifftiau o wasanaethau y mae YYD yn eu darparu ac a fyddai'n parhau ac y gellid ehangu arnynt o bosibl eu nodi isod;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Big Lunch – mae disgyblion hŷn yn gweini cinio i 100 o aelodau o'r gymuned leol • Mae Simon Jones – Uwch Swyddog Byw'n Iach (Chwaraeon Anabledd) – yn trefnu digwyddiadau chwaraeon gyda grwpiau'n dod i mewn i gynnig sesiynau unigol mewn arddull tebyg i Add Gorff (pêl-droed, pêl-fasged cadair olwyn yn flaenorol) ac yn trefnu digwyddiadau chwaraeon cymunedol. • Mae ffisiotherapyddion yn rhoi triniaeth i blant yn y gymuned yn rheolaidd ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol • Cynhelir clwb cadeiriau olwyn Whizzkids yn yr ysgol yn ystod gwyliau'r haf • Cynllun chwarae yn y gwyliau • Mae Janet Dailey (preswlydd lleol a chyn athrawes) yn adrodd storïau ac yn cyflwyno storïau synhwyaidd ar draws adrannau

			<ul style="list-style-type: none"> • Bocs Bwyd – prosiect lle mae disgyblion yn gweithio ar safleoedd adeiladu yn y Barri ac yn gweini/coginio bwyd a diod
CI3	Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol	1	<p>Mae'r safle arfaethedig ar gyfer ehangu YYD o fewn datblygiad tai newydd ger Cosmeston.</p> <p>Mae'r safle arfaethedig ar gyfer yr adeilad ysgol newydd yn agos at Barc Gwledig Cosmeston a'r Pentref Canoloesol. Byddai'r parc yn darparu adnodd gwych ar gyfer staff a disgyblion i wella lles ag agweddau at ddysgu. Mae'r safle arfaethedig yn agos at y môr hefyd.</p> <p>Mae YYD yn defnyddio'r cyfleusterau cymunedol canlynol ar hyn o bryd a byddai (o leiaf) hyn yn parhau dan y cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canolfan Hamdden Cogan – sesiynau nofio rheolaidd • Llyfrgell Dinas Powys • Canolfan Rafftio Dŵr Gwyn • Cosmeston – grwpiau cerdded • Pedal Power – Bae Caerdydd • Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd • Zone Play • Llyfrgell Penarth • Parciau lleol • Ymweliadau ag archfarchnadoedd ac Ikea • Cartref Cŵn y Cyngor i fynd â chŵn am dro • Ymweliadau â'r sinema • Ymweliadau â Chanolfan Arddio • Marchogaeth – Ysgol Farchogaeth Caerdydd

CI4	Cyfleusterau a ddarperir gan yr ysgol a gweithgarwch a gyflawnir ar safle'r ysgol	1	<p>Un o elfennau allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yw darparu cyfleusterau cymunedol. Byddai'r cynnig yn cynnwys creu cyfleusterau tra modern y gallai'r gymuned eu llogi; megis meysydd chwaraeon ac ystafelloedd cyfarfod.</p> <p>Mae potensial i fynediad cymunedol at gyfleusterau, megis ystafelloedd cyfarfod, gael ei gynyddu. Cyfrifoldeb yr ysgol fydd rheoli hyn â gofynion diogelu.</p> <p>Mae YYD yn rhoi'r cyfleusterau canlynol ar log i'r gymuned ar hyn o bryd a byddai (o leiaf) hyn yn parhau dan y cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddir y pwll gan grwpiau cymunedol • Defnyddir y neuadd ar gyfer grwpiau cymunedol • Defnyddir tir yr ysgol gan grwpiau chwaraeon lleol • Rydym wedi agor y maes chwarae i'n rhieni ar benwythnosau • Cysylltiadau â Chlwb Ceir Clasurold De Cymru sydd wedi defnyddio tir ein hysgol ar gyfer digwyddiadau
CI5	Effaith ar fusnesau lleol	1	<p>Mae potensial i gynyddu ymweliadau gan fusnesau lleol. Cyfrifoldeb yr ysgol fydd rheoli hyn â gofynion diogelu.</p> <p>Mae'r busnesau a gwasanaethau lleol canlynol yn ymweld â'r ysgol ar hyn o bryd a byddai (o leiaf) hyn yn parhau dan y cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymweliadau â'r ysgol gan yr heddlu i roi sgysiau am ddiogelwch a.y.b. • Ymweliadau â'r ysgol gan y Frigâd Dân • Cynllun Gwên – rhaglen deintydd cymunedol a brwsio dannedd yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd
CI6	Effaith ar gyflogaeth leol	1	<p>Gallai'r cynnig hwn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth arbenigol yn YYD ar ôl ehangu'r ysgol.</p>

CI7	Effaith ar seilwaith lleol	-1	<p>Efallai y bydd mân effaith ar draffig yn yr ardal o amgylch y safle ysgol newydd ar hyd Cog Road. Fodd bynnag, byddai gostyngiad mewn teithio i ddarpariaeth y tu allan i'r sir hefyd. Felly, ar y cyfan gallai hyn gael mân effaith negyddol ar seilwaith trafniadaeth lleol.</p> <p>Byddai asesiad trafniadaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd. Byddai hwn yn asesu'r effaith ar y seilwaith lleol ac yn cynnwys dadansoddiad llwybr ysgubedig i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth gyfredol ar hygyrchedd ar gyfer yr holl wasanaethau brys. Byddai hwn hefyd yn cynnwys asesu llwybrau cerdded diogel. Byddai'r asesiad trafniadaeth yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ddylunio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a ganfyddir.</p> <p>Mae cyfle trwy'r broses dylunio ac adeiladu i wella llwybrau cysylltiol i wella diogelwch y llwybrau a mwynhad ohonynt. Byddai dyluniadau'n mynd trwy'r broses gynllunio ffurfiol sy'n cynnwys ymgynghoriad statudol â phreswylwyr lleol.</p>
CI8	Trefniadau cludiant	-1	<p>Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oed ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf, yn unol â 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008'.</p> <p>Mae disgyblion ADY yn gymwys i gael cludiant am ddim os yw asesiad wedi canfod bod ganddynt anawsterau dwys a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth neu ddsbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu fwy (disgyblion oedran cynradd) a 3 milltir neu fwy (disgyblion oedran uwchradd) o gyfeiriad cartref eu rhiant a gaiff ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.</p> <p>Darperir cludiant am ddim ar gyfer 229 o ddisgyblion yn YYD ar hyn o bryd. Ar y cyfan, mae 45 o gerbydau'n gwasanaethu'r safle presennol y mae eu manylion fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 5 cerbyd yn darparu cludiant ar gyfer mwy na 10 disgybl;

		<ul style="list-style-type: none"> • Mae 5 cerbyd yn darparu cludiant ar gyfer rhwng 6 a 10 disgybl; ac • Mae 35 o gerbydau'n darparu cludiant ar gyfer 5 disgybl neu lai. <p>Efallai y bydd cynnydd bach yn y trefniadau i gludo disgyblion i'r safle newydd. Fodd bynnag, efallai y byddai gostyngiad mewn trefniadau cludiant i ddarpariaeth y tu allan i'r sir hefyd. Felly, ar y cyfan gallai hyn gael mân effaith negyddol ar y trefniadau cludiant.</p> <p>Byddai asesiad trafnidiaeth hefyd yn pennu'r gofyniad ar gyfer cyfleusterau danfon a chasglu i hwyluso trefniadau cludiant i'r ysgol. Byddai hefyd yn cael ei ddefnyddio i oleuo'r nifer gofynnol o fannau parcio ceir ar gyfer staff.</p> <p>Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai teithio llesol yn ystyriaeth bwysig o fewn dyluniad y safle i roi cymorth i wireddu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Fel rhan o'r ddarpariaeth wynebaw meddal, byddai Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a'r contractwyr yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun teithio wedi'i ddiweddarau a fyddai'n cefnogi mesurau i gynyddu teithio llesol i'r ysgol.</p>
--	--	--

Crynodeb Sgorio

Cyf.	Y Gymuned Leol
CI1	3
CI2	2
CI3	1
CI4	1
CI5	1
CI6	1
CI7	-1
CI8	-1
Sgôr Cyfartalog	0.875

Casgliadau

Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol ar draws 6 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar y gymuned leol mewn 2 o'r 8 mesur a aseswyd. Ar y cyfan, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn ei gwneud yn bosibl ehangu YYD i ddarparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fyddai'n herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial. Byddai'r cynnig yn cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion cymhleth disgyblion ar yr un pryd.

Byddai angen i'r goblygiadau o ran trafnidiaeth gael eu hystyried yn ofalus yn ystod y broses o ddylunio'r ysgol newydd i gyfyngu ar effaith y cynnydd mewn disgyblion a fydd yn teithio i'r safle.

Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y byddai'r cynnig yn diwallu anghenion y gymuned yn well i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion a'r galw amdanynt.